Teitl y Swydd: Rheolwr Safle Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Math o gontract: Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)

Graddfa: Gweithredol 6: £32,074 (Pwynt 1) - £36,425 (Pwynt 4)
Gweithredol 7: £37,519 (Pwynt 1) - £42,404 (Pwynt 4) : gyda cymhwyster NEEBOSH

(I gael eich apwyntio ar raddfa 7 bydd rhaid meddu â cymhwyster NEEBOSH. Os nad oes gen y deiliaid llwyddiannus y cymhwyster yma yna byddwch yn cael eich apwyntio ar raddfa 6 ble bydd modd gweithio tuag at y cymhwyster yn ystod 6 mis cyntaf eich cyflogaeth ac yna cael dyrchafiad i raddfa 7 ar gwblhad llwyddiannus y cymhwyster).

Lleoliad: Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Amdanom ni

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â chwaraeon, y celfyddydau, gwirfoddoli, hyfforddiant, gwaith dyngarol, rhyngwladol a phreswyl, sy'n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned a'r byd yn ehangach.

Ers ei sefydlu yn 1922, mae'r mudiad wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i eraill ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Hyd yma mae dros 4 miliwn o bobl wedi bod yn aelodau o'r Urdd ac eleni mae'r mudiad yn edrych ymlaen at ddathlu ei ganmlwyddiant a chydag nifer o ddigwyddiadau mawr wedi'u cynllunio'n arbennig.

Yr Urdd yw cyflogwr trydydd sector cyfrwng Cymraeg mwyaf yng Nghymru, gyda dros 200 o staff wedi'u lleoli mewn 12 swyddfa ledled Cymru. Roedd ei drosiant blynyddol cyn Covid bron yn £12M, a daeth â gwerth economaidd o £32M i Gymru yn ystod 2019/20.

Y Swydd

Mae Gwersyll yr Urdd Llangrannog yn chwilio am berson wybodus a datryswr problemau naturiol i ymuno a'r tîm rheoli fel Rheolwr Safle. Bydd y person llwyddiannus yn gyfrifol am, rheoli prosiectau cyfalafol hir dymor yn ogystal a chynllunio a threfnu gwaith cynnal a chadw yn y tymor byr. Rheolwr safle fydd yn gyfrifol am sicrhau gwasanaethau allanol.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Lowri Jones (Cyfarwyddwr Gwersyll Llangrannog) ar 01239 652144 neu lowri@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 21.08.2022
Dyddiad Cyfweld – wythnos rhwng y 22 – 26.08.2022

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Rheolwr Safle Gwersyll yr Urdd Llangrannog	**Lleoliad:**	Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Adran:	Gwersyll Llangrannog	**Rheolaeth Llinell:**	* Swyddog Cynnal a Chadw Aml Sgil * Swyddog Cynnal a Chadw * Swyddog Cynnal a Chadw dan Hyfforddiant
Yn adrodd i :	Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog	**Graddfa:**	Gweithredol 6 neu 7 yn ddibynnol ar gymwysterau

Prif bwrpas y swydd:

Mi fydd gan Rheolwr Stad Llangrannog gyfrifoldeb dros holl agweddau cynnal a chadw Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentref Ifan, gan gynnwys cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch adeiladau Gwersylloedd Llangrannog + Pentre Ifan.

Golyga hyn drefnu amserlen gwaith priodol er mwyn sicrhau fod gan y Gwersylloedd isadeiledd pwrpasol, effeithlon, diogel ac yn cyrraedd safon trwyddedu swyddogol.

Mae'r Gwersyll wedi eu wasgaru dros 60 o aceri sy'n gartref i

- 4 bloc Cysgu sy'n cynnwys 81 yst ensuite
- Neuadd Fwyta a Chegin (Eistedd dros 250)
- Swyddfeydd a Derbynfa
- Tŷ Fferm Cefn Cwrt
- Adeiladau Gweithgareddau (Canolfan hamdden, Canolfan Dringo, Canolfan farchogaeth, Canolfan Sgïo, Penhelyg-Gampfa, Canolfan Treftadaeth Caer Chwedlau).

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

<u>Cyffredinol</u>

1) Blaen gynllunio, trefnu a chyllidebu prosiectau cynnal a chadw Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentre Ifan.
2) Rhedeg system *monitro isadeiledd* effeithiol, er mwyn rhagweld gwaith cynnal a chadw angenrheidiol.
3) Chynllunio a threfnu gwaith cynnal a chadw wythnosol.
4) Ymgymryd a gwaith ymarferol yn ôl yr angen
5) Cyfrifoldeb dros gwaith tendro/pwrcasi yn unol a pholisi yr Urdd, a chydlynu gyda chontractwyr allanol.
6) Monitro effeithiolrwydd amgylcheddol adeiladau, defnydd egni a gwastraff.
7) Rheoli prosiectau Cyfalafol canolig ar safle'r Gwersyll a Phentref Ifan. Mae hyn yn cynnwys monitro gwaith a chyllideb ynghyd a chydlynu a chontractwyr allanol. Gwerthuso gwerth am arian prosiectau cynnal a chadw.
8) Bod ar alwad 1:3 penwythnos a 4 noson y mis ar rota i ateb gofynion cynnal a chadw.
9) Rheoli cyllideb adran cynnal a chadw yn flynyddol.

<u>Iechyd a Diogelwch</u>

1) Cyfrifoldeb dros Iechyd a diogelwch adeiladau Gwersyll Llangrannog, gan gydweithio a Rheolwr Gofal Cwsmer sydd a chyfrifoldeb dros gweithgareddau.
2) Sicrhau bod trwyddedu statudol ar archwiliadau yn gyfredol gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i systemau tan, systemau dwr, Gwastraff ac archwiliadau trydanol.
3) Diweddaru ac ysgrifennu asesiadau risg adeilad
4) Sicrhau trefniant iechyd a diogelwch wrth ymgymryd a gwaith cynnal a chadw yn fewnol neu yn allanol gan gontractwyr.
5) Rheoli ac arwain ar rhaglen iechyd a diogelwch adeiladau, gan sicrhau archwiliadau wythnosol, misol chwarterol, blynyddol yn ôl yr angen.

Rheoli Staff

1) Rheoli ac arwain adran Cynnal a Chadw Gwersyll yr Urdd Llangrannog gan ddefnyddio system AD Cypher yr Urdd.
2) Trefnu gwaith wythnosol staff cynnal a chadw
3) Trefnu hyfforddiant yn ôl yr angen

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

HANFODOL:

- NEBOSH neu gymhwyster cyfatebol
- Profiad eang yn y byd adeiladu
- Profiad o reoli prosiectau cyfalafol mawr
- Profiad o gysylltu â gweithio efo contractwyr
- Sgiliau trefnu, blaenoriaethu a chyfathrebu rhagorol
- Sgiliau rheoli pobl a rheoli cyllidebau
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion amgylcheddol, ailgylchu, egni a gwastraff

DYMUNOL:

- Sgiliau cyfrifiadurol da a defnydd o Office 365
- Arbenigedd mewn maes trydanol, plymio, adeiladu.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2022 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir y manylion yn llawn yn Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	Rheolwr Safle Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Cyflog:	Penodir ar raddfa Gweithredol 6: £32,074 (Pwynt 1) - £36,425 (Pwynt 4) os nad yw'r deiliaid llwyddiannus yn meddu ar gymhwyster NEEBOSH. Bydd cyfle i weithio tuag ar y cymhwyster yma yn 6 mis gyntaf cyflogaeth yr unigolyn ac yna cael dyrchafiad i raddfa 7 ar gwblhad llwyddiannus y cymhwyster. Penodir unigolyn sydd yn ymateb â'r gofynion hanfodol llawn ar gyfer y swydd ar raddfa Gweithredol 7: £37,519 (Pwynt 1) - £42,404 (Pwynt 4)
Cytundeb:	Llawn Amser, Parhaol
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir fynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.
Yswiriant Bywyd:	Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70.